Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Cymrawd Clinigol

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | £48,252 - £69,034 ynghyd â buddion pensiwn USS/Y GIG. Ynghyd â bandiau galw allan perthnasol |
| **Oriau gwaith:** | 37.5 awr |
| **Contract:** | Cyfnod penodol am 2 flynedd |
| **Lleoliad:** | Bydd y swydd hon yn Ysbyty Singleton, Abertawe ac ym Mhrifysgol Abertawe |

**Cyflwyniad**

Fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais am un o'n swyddi ymchwil lawfeddygol arloesol yn yr Ysgol Feddygaeth. Mae'r swyddi hyn yn gyfle i'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus gyfuno ymchwil lawfeddygol academaidd effaith uchel ag ystod eang o waith clinigol. Byddai'r meysydd ymchwil yn addas ar gyfer hyfforddeion llawfeddygol ym meysydd llawfeddygaeth y colon a'r rhefr, llawfeddygaeth bancreatig-biliari, llawfeddygaeth blastig, wroleg neu ddiddordebau ENT. Caiff ymgeiswyr eu goruchwylio'n agos gan lawfeddygon academaidd a chydweithwyr yn y brifysgol yn y ddisgyblaeth honno sydd â phrofiad o lwyddiant wrth oruchwylio graddau uwch. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus weithio tuag at radd uwch (MSc, MPhil, MD neu PhD). Mae amrywiaeth o brosiectau ymchwil a ariennir ar gael a gellir dewis y lleoliad hefyd (naill ai mewn labordy neu ffocws mwy clinigol) gan ddibynnu ar allu a dewisiadau'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Gwybodaeth gefndirol**

Mae tri phrif gweithgaredd gan yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe: dysgu ac addysgu; ymchwil; a busnes ac arloesi. Dyma rai o'r cerrig milltir yn ei hanes: sefydlu'r Rhaglen Meddygaeth i Raddedigion yn 2004; agor cam un y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn 2007 a cham dau a’r Ganolfan Nanolechyd yn 2011; ennill yr hawl i ddyfarnu Prif Gymwysterau Meddygol yn annibynnol ar unrhyw sefydliad arall yn 2014; Caiff yr Ysgol Feddygaeth ei chydnabod bellach fel un o'r ysgolion meddygol sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae’r Ysgol Feddygaeth wedi cyflawni llwyddiant rhagorol yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021: Dyma rai o gyflawniadau'r Ysgol:

- Rydym ni ymhlith y 5 Gorau (yn y 4ydd safle yn y DU) am ansawdd ymchwil cyffredinol
- Rydym wedi llwyddo i gynnal ein safle ymhlith y 5 Gorau ers REF2014
- Cynnydd yn ein GPA cyffredinol o 3.49 i 3.53 ers REF2014
- Barnwyd bod 97% o’n hymchwil yn arwain y ffordd yn fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol
- Aseswyd bod 100% o'n hamgylchedd yn arwain y ffordd yn fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol

Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod yn un o'r 30 o brifysgolion gorau, mae angen ar Brifysgol Abertawe weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol. Penderfynir ar y llwybr gyrfa priodol gyda'r ymgeisydd llwyddiannus unwaith y caiff ei benodi.

Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn un o’r 10 o ysgolion meddygaeth gorau yn y DU.

| | |
|---|---|
| | Ym mis Ebrill 2016, yr Ysgol Feddygaeth oedd yr adran gyntaf yn y Brifysgol i gyflawni Uned Herio Cydraddoldeb (ECU) Gwobr Arian Siarter Athena SWAN, gan ddangos ymrwymiad yr Ysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth: http://www.swansea.ac.uk/medicine/athenaswan/. |
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Mae'r swydd hon yn darparu rôl i ymgeisydd â photensial ymchwil ac academaidd a diddordeb mewn ymchwil y colon a'r rhefr, llawfeddygaeth bancreatig-biliari, llawfeddygaeth blastig, wroleg neu ENT i ddatblygu ei yrfa ym Mhrifysgol Abertawe. Disgwylir i ddeiliad y swydd ehangu ei weithgareddau ymchwil ei hun a gallu cysylltu â meysydd ymchwil a thimau ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn y Brifysgol. Yn ogystal, bydd angen iddo ddatblygu ei bortffolio ei hun o brosiectau wedi'u hariannu, ynghyd â rhyngweithiadau a chydweithrediadau cynhyrchiol gyda byd diwydiant ac eraill. Bydd deiliad y swydd yn ymdrechu i weithredu ar lefel ryngwladol ac i gyhoeddi ymchwil mewn cyfnodolion effaith uchel a phriodol.<br><br>Bydd y gydran RSO yn 1:5 yn ystod yr wythnos yn Ysbyty Singleton am gyfnod o 24 awr. Yn ogystal, disgwylir i chi weithio rota 1:5 dros y penwythnos. Bydd yr ymrwymiadau clinigol yn cael eu goruchwylio gan Uned Gyflawni Singleton ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.<br><br>Cyfrifoldebau penodol deiliad y swydd:<br><br>1. Mae'r penodiad am swydd RSO 1:5 yn ystod yr wythnos ar gyfer Ysbyty Singleton am gyfnod o 24 awr i ofalu am gleifion llawfeddygol trawsarbenigedd ar ôl llawdriniaeth sydd wedi cael llawfeddygaeth ganolradd. Yn ogystal, disgwylir i chi weithio rota 1:5 dros y penwythnos.<br><br>2. Byddai disgwyl i ddeiliad y swydd fod yn brif ymchwilydd yn ei brif swydd.<br><br>3. Ymgymryd â gradd ymchwil drwy draethawd ymchwil (MSc drwy ymchwil, MPhil, MD neu PhD drwy gytundeb) mewn ymchwil peirianneg meinweoedd yn y labordy neu draethawd ymchwil clinigol ag effaith genedlaethol arwyddocaol. Byddai disgwyl bod data ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd gwyddonol a llawfeddygol priodol a'i gyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br><br>4. Cynorthwyo i recriwtio cleifion ar gyfer treialon clinigol sefydledig.<br><br>5. Cymryd rhan mewn cwrs Ymarfer Clinigol Da (GCP) a chynorthwyo wrth ysgrifennu ceisiadau am grantiau a cheisiadau i'r pwyllgor moeseg lle bo angen.<br><br>6. Gweithredu fel goruchwyliwr ar gyfer nifer o brosiectau ymchwil ac archwilio llai y mae aelodau llai profiadol y tîm yn ymgymryd â nhw.<br><br>7. Er bod y swydd yn seiliedig ar ymchwil neu addysg, bydd deiliad y swydd yn gallu cynnal a datblygu ei brofiad clinigol a llawfeddygol drwy fod ar restrau llawdriniaeth mewn theatrau a chymryd rhan mewn clinigau cleifion allanol ar ei ddiwrnod clinigol bob wythnos.<br><br>8. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai fod angen i ddeiliad y swydd weithio yn lle meddygon CT/StR yr adran yn ystod cyfnodau o absenoldeb, yn amodol ar brofiad |

| | |
|---|---|
| | blaenorol.<br><br>9. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd addysgu myfyrwyr Meddygaeth ar y Rhaglen Meddygaeth i Raddedigion a myfyrwyr Meddygol Clinigol yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.<br><br>10. Ymchwil/Addysgu/Clinigol: Mae'r holl amser a ddynodir i ymchwil yn hyblyg. Bydd ymrwymiadau addysgu'n cael eu cynnwys yn hyn. Bydd ymrwymiad mewn theatrau a gwaith clinigol arall yn hyblyg ac yn ôl y galw. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 11. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol<br>12. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd<br>13. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br><br>**<u>Academaidd</u>**<br><br>1. Meddu ar o leiaf ran A yr MRCS<br>2. Cwblhau'n llwyddiannus gwrs Gofalu am Gleifion Llawfeddygol sy'n Ddifrifol Wael yr RCS (CCrISP)<br>3. Tystiolaeth o roi arfer arloesol ar waith, gan gynnwys gwerthuso a chael canlyniadau cadarnhaol ar sail ymchwil a gwybodaeth gyfredol yn y maes<br>4. Tystiolaeth o wella ymarfer proffesiynol, ymchwil neu addysgu gan arddangos o leiaf ddau weithgaredd datblygu proffesiynol parhaus yn y flwyddyn ddiwethaf<br><br>**<u>Clinigol</u>**<br><br>1. Ymrwymiad i yrfa mewn maes Llawfeddygaeth perthnasol (y colon a'r rhefr/ pancreatig-biliari /plastig/wroleg/ENT)<br>2. Tystiolaeth o brofiad ymchwil blaenorol<br>3. Cyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid<br>4. Prosiectau archwilio a gwblhawyd<br>5. Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>**<u>Academaidd</u>**<br><br>1. Profiad blaenorol o weithio mewn labordy.<br><br>**<u>Clinigol</u>**<br><br>2. Wedi cwblhau'r cwrs Ymarfer Clinigol Da<br><br>3. Gallu cyfathrebu yn Gymraeg |